A promise of hope

Addewid o obaith
Nadolig 2023

home for good

## Diolch am ddewis defnyddio ein hadnoddau Nadolig eleni!

## Y thema ar gyfer ein hymgyrch Nadolig yn 2023 yw *Addewid o obaith.*

Mae stori'r Nadolig yn stori o obaith. Daeth Duw i mewn i'n byd, i fod fel ni. Daeth Iesu i ddod â goleuni i'r tywyllwch. Daeth Iesu i ddod â llawenydd a newyddion da i bobl. Trwyddo Ef daethom i wybod ein bod yn blant i Dduw; taw'r Nefoedd yw ein cartref ni. **I fyd blinedig, ganwyd addewid o obaith y noson honno - ond sut olwg sydd ar 'obaith'?**

Eleni, bydd tua 36,000 o blant yn cael eu rhoi mewn gofal. Mae pob un ohonynt yn haeddu ac angen teimlo bod croeso iddynt, a'u bod mewn sefyllfa sefydlog a diogel. Ond mae ein system gofal wedi ei hymestyn hyd at dorri. Mae angen miloedd yn rhagor o ofalwyr maeth ledled y wlad er mwyn sicrhau fod gan bob plentyn do uwch ei ben. Mae plant yn gorfod aros yn rhy hir i gael cartref fydd yn bodloni eu gofynion, ac yn cynnig y gofal a chefnogaeth sydd ei angen arnynt. **Sut olwg sydd ar 'gobaith' iddyn nhw?**

**Rydym wedi creu pecyn adnoddau amrywiol am ddim i'ch eglwys ei fwynhau adeg tymor y Nadolig eleni. Mae'n cynnwys fideo newydd sbon gan rwydwaith Home for Good, sy'n rhannu storïau am brofiadau go iawn o obaith.**

**Ynghyd â'n ffilm fer newydd, rydym wedi rhoi rhai awgrymiadau ychwanegol isod i'ch helpu i lunio eich gwasanaeth eleni, yn cynnwys:**

1. Rhai awgrymiadau ynghylch ymgynnull dros y Nadolig eleni.
2. Rhai awgrymiadau am ganeuon gan dîm Home for Good.
3. Rhestr o ddarlleniadau Beibl sy'n cyd-fynd â'r thema eleni, 'gobaith', a rhai syniadau am sut i ddweud y storïau hyn.
4. Tair gweddi ysgrifenedig ar gyfer eglwysi sy'n hoffi defnyddio litwrgi neu weddïau ysgrifenedig yn eu gwasanaethau.
5. Syniadau am weithgareddau i'w defnyddio gyda grwpiau plant ac ieuenctid.
6. Pwyntiau ar gyfer pregeth neu sgwrs.

Rydym yn argymell eich bod yn addasu'r awgrymiadau hyn i weddu'ch cynulleidfa; gwyddom fod pob eglwys yn wahanol, ac rydym am i chi wneud yr hyn fydd yn gweithio orau i'ch un chi.

Rydym wedi creu ffilm fer newydd i chi ei defnyddio a'i rhannu y Nadolig hwn. Mae'n cynnwys straeon bywyd go iawn gan bobl sy'n rhan o rwydwaith Home for Good – gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, unigolion â phrofiad o fod mewn gofal – pob un yn ateb y cwestiwn, 'Ble ydych chi wedi gweld addewid o obaith?'. Mae'r straeon hyn yn dangos mewn modd hyfryd sut y gall 'gobaith' ymddangos yng nghanol digwyddiadau bob dydd, a'n hysbrydoli i ystyried sut y gallem ddod â gobaith i eraill o'n cwmpas. Byddem wrth ein bodd pe gallech chi chwarae'r fideo hwn yng ngwasanaeth Nadolig eich eglwys eleni, fel eitem annibynnol neu wedi'i ymgorffori yn eich pregeth neu sgwrs.

Byddwch hefyd yn gweld bod gwybodaeth am roi. Mae'r adnodd hwn yn rhodd am ddim i chi - ond dim ond drwy gefnogaeth pobl arbennig fel chi y gallwn ddal ati i ysbrydoli ac arfogi eglwysi. **Byddem wrth ein bodd eich gwahodd i 'dalu ymlaen' fel bod rhagor o eglwysi yn gallu derbyn ein hadnoddau am ddim, ac i helpu dod o hyd i ragor o gartrefi diogel, sefydlog a chariadus i blant sydd eu hangen.** Mae eglwysi ar draws y wlad yn cefnogi Home for Good unai drwy gynnal casgliad arbennig yn ystod eu gwasanaethau, neu drwy roi yn wythnosol neu'n flynyddol. Mae rhagor o wybodaeth am roi ar dudalen 18 y pecyn.

Gobeithio bydd y deunydd hwn yn ddefnyddiol i chi, a'i fod yn fendith i deulu'ch eglwys. Dymunwn Nadolig Llawen i chi, gan bawb yma yn Home for Good!

# Dod at ein gilydd

**Efallai y bydd tymor y Nadolig yn denu rhai pobl i'n gwasanaethau a chyfarfodydd eglwys nad ydyn nhw fel arfer yn dod; rhai sy'n ymweld ag aelodau o'r teulu neu ffrindiau, plant, pobl ifanc a theuluoedd o ysgolion lleol, unigolion y mae mynychu gapel neu eglwys adeg y Nadolig yn rhan arbennig o bwysig iddynt o ran traddodiad. I lawer ohonom, mae hefyd yn gyfnod pan mae cymuned a theulu ein heglwys yn teimlo'n arbennig o annwyl i ni; rydym wrth ein boddau dod at ein gilydd i gynnal gwasanaethau, i weddïo, i ganu ac i gael hwyl.**

Dyma rai awgrymiadau o ffyrdd y gallwch wneud eich gwasanaeth yn le hyd yn oed yn fwy croesawgar - ar gyfer y rheiny nad ydynt erioed wedi rhoi blaen eu troed i mewn i'ch adeilad o'r blaen, ac i'r rheiny rydych yn eu nabod yn dda.

- Efallai y gallech ysgrifennu 'Nadolig Llawen' neu 'Croeso' mewn ieithoedd gwahanol ar eich sgrin, neu ar daflen o drefn y gwasanaeth.
- Efallai y gallech gael ystod amrywiol o leisiau, oedrannau ac wynebau'n cyfrannu at eich gwasanaeth, trwy ddarlleniadau, addoli a gweddïau.
- Mae coffi da a bisgedi blasus (neu mins peis!) yn mynd yn bell o ran gwneud i bobol deimlo'n gysurus wrth iddyn nhw ddod i mewn a setlo i'r gwasanaeth.
- Gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb. Allech chi wahodd dehonglydd iaith arwyddion? A allech chi gynnwys rhywfaint o Makaton yn eich addoliad (er enghraifft y carolau hyn gan The Makaton Charity). A allech chi ymgorffori rhai adnoddau cefnogol gweledol i helpu pobl ddeall siâp eich gwasanaeth (Mae gan *ASD in Church* rhai adnoddau cefnogi gweledol i'w lawr lwytho am ddim)?



Yn Home for Good, rydym yn arbennig o ymwybodol o'r rheiny a allai wynebu rhwystrau i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, oherwydd bod ganddyn nhw, neu rywun yn eu teulu, brofiad o fod mewn gofal. Darllenwch atodiad 1 ar ddiwedd y pecyn hwn am ragor o awgrymiadau sydd wedi'u hanelu'n benodol at blant a theuluoedd â phrofiad o fod mewn gofal!

# Caneuon

**Mae llawer o ganeuon ac emynau Nadolig yn ein hatgoffa am galon Duw, a'r tosturi a chroeso chwyldroadol y dangosodd drwy Iesu, sydd yn ein gwahodd ninnau, yr Eglwys, i ymateb.**



- Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn
  *A deued pawb ynghyd i'w dderbyn a'i gydnabod ef*
- Draw yn Ninas Dafydd
  *Daeth i lawr o fynwes Duw, heddiw'n frawd i ddynol-ryw*
- O! Tyred Di, Emaniwel
  *A datod rhwymau Isräel, sydd yma'n alltud unig trist, hyd ddydd datguddiad Iesu Grist*
- Fendigaid Nos
  *Mewn gobaith llon mae'r cread yn atseinio.*

Yn ogystal â'r clasuron, efallai hoffech gynnwys rhai dewisiadau amgen, fwy cyfoes neu ar gyfer pob oed yn eich gwasanaeth Nadolig eleni. Mae rhai aelodau o dîm Home for Good wedi rhannu eu hoff ganeuon:

- Albwm cyfan Rain for Roots, *Waiting Songs*, teimladwy iawn ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig. Rydym yn arbennig o hoff o Every Valley (It's Hard to Wait)!
- *God's Christmas Light,* Fischy Music.
- *Hear the Bells*, Worship for Everyone.
- *Fear Is Not My Future*, Maverick City Music.
- *You're The Hope* (Psalm 65), Kiran Young Wimberly & The McGraths.

# Darlleniadau Beibl

**Mae stori'r Nadolig yn stori o obaith. Ond pam? A beth rydym yn ei olygu wrth siarad am obaith? Efallai bydd y darlleniadau sydd wedi'u hawgrymu isod yn cynnig atebion i rai o'r cwestiynau hyn; efallai byddwch am eu darllen yn uchel fel rhan o'ch gwasanaeth, neu eu defnyddio yn sail ar gyfer sgwrs, pregeth neu weithgaredd.**


Byddem yn eich annog i feddwl am ffyrdd o wneud eich darlleniadau yn rhyngweithiol ac yn hygyrch i bawb. A allech chi ddefnyddio elfennau gweledol? A allech chi gael dehonglydd iaith arwyddion yn eich gwasanaeth fel bod y neges yn cael ei rannu â'r rhai sy'n defnyddio'r iaith honno?

### Eseia 9:1-7

Mae'r geiriau sy'n rhagflaenu pennod naw yn ymwneud â thywyllwch, dioddef, barnedigaeth. Ac yna mae pennod naw yn dechrau gyda gair hynod o bwysig: 'Ond'. Mae'r 'ond' yma yn cario gras Duw, ei gariad a thosturi mawr dros ei bobl, ei faddeuant hael a'i ffyddlondeb rhyfeddol. Ac yna, yn y darn adnabyddus hwn, darllenwn nad tywyllwch yw'r diwedd. Mae gan Dduw rhywbeth gwahanol ar gyfer ei bobl Ef.

### Luc 1:26-38 a Luc 1:46-56

Mae angel yn ymweld â Mair, sy'n dweud wrthi ei bod am feichiogi ac esgor ar fab; mai ei enw fydd Iesu, a'i fod yn fab Duw. Mewn ymateb i'r newyddion hynny, mae Mair yn gweddïo'r geiriau hyn o fawl ac addoliad, diolchgarwch a gobaith.



### Mathew 20:16-20

Gan neidio o'r tudalen sy'n son am enedigaeth Iesu at eiriau olaf Efengyl Mathew, mae'r geiriau hyn yn atgyfnerthu addewid Duw i ni y bydd Ef yn bresennol gyda ni - bob amser, hyd ddiwedd amser.

### Hebreaid 6:13-20; Hebreaid 10:23; Colosiaid 1:15-27

Nid yw'r adnodau hyn yn cael eu dewis ar gyfer gwasanaethau Nadolig fel arfer, ond maent yn rhannu darlun gwych o obaith - yn angor i'n bywyd, yn ddiogel a chadarn - sy'n ein hatgoffa ein bod ni, yr Eglwys, yn cario gobaith Crist ynom ni.

# Gweddïau cynulleidfaol

**I'r rheiny sy'n defnyddio litwrgi neu weddïau cynulleidfaol yn eich addoliad, rydym wedi ysgrifennu tair gweddi i chi.**

## Gweddi gynulleidfaol 1

**Duw gobaith,**
**Duw yr aros,**
Duw y siaradodd y proffwydi amdano, flynyddoedd cyn i'w geiriau ddod yn wir.
Gweddïwn dros y rheiny sy'n aros am deulu.
Gweddïwn dros blant a phobl ifanc sy'n aros am y lle iawn i'w alw'n gartref. Dros y rheiny sy'n cael eu symud dro ar ôl tro wrth chwilio am leoliad parhaol; dros y rheiny sydd efallai'n gorfod symud yn bell oherwydd dyna ble mae'r gofalwr maeth agosaf; dros y rheiny sydd efallai'n gorfod cael eu gwahanu oddi wrth frawd neu chwaer.
Wnei Di eu dal nhw yn dy freichiau drwy'r aros, y poeni a'r cwestiynu?
Wnei Di eu helpu i deimlo dy bresenoldeb, yn agos ac yn gysurlon wrth eu hymyl?
Arglwydd, rydym yn ymddiried fod gen ti rywbeth gwell a gwahanol ar gyfer y plant gwerthfawr hyn; wnei Di ein helpu ni i chwarae'n rhan wrth gynnal dy obaith?

**Duw Gobaith,**
**Duw pob llygedyn bach o obaith,**
Duw a gafodd ei eni ar y ddaear hon, nid i gyfoeth brenhiniaeth a harddwch,
Ond yn faban bychan, i deulu cyffredin, mewn cornel dawel tref ddi-nod.
Rydym yn dy foli di, ac yn diolch iti am yr arwyddion bach o obaith yn ein bywydau; awgrymiadau o dy bresenoldeb gyda ni, sy'n ein hatgoffa o dy gynllun mawr.
Wrth i ni feddwl yn benodol am y rheiny sy'n gofalu am blant â phrofiad o'r system gofal, rydym yn diolch i ti am y cyfle am gwtsh. Rydym yn diolch am gyswllt llygaid. Rydym yn diolch i ti am gwestiynau, sgyrsiau a chaneuon. Rydym yn diolch i ti am brydau bwyd sy'n cael eu coginio a'u rhannu, am help gyda cludo'r plant, am help gyda golchi dillad.
Rydym yn diolch am yr adegau hynny sy'n ymddangos yn fach ac yn ddibwys i rai, ond sy'n golygu'r byd i eraill, a gofynnwn i ti agor ein llygaid i'r arwyddion bach hyn o obaith, fel ein bod ni'n well am sylwi arnynt ac yn well am eu cynnig ein hunain.

**Duw Gobaith,**
**Duw y rhyfeddod mawr,**
Duw a gafodd ei groesawu gan oleuni llachar sêr a chân angylion;
A'i enw a gafodd ei gyhoeddi a'i foli dros y bryniau a chaeau y tu allan i Fethlehem.
Rydym yn dy foli Di ac yn diolch i ti am yr adegau pan fydd gobaith yn ein taro fel tunnell o frics!
Yn diolch dros y teulu hwnnw sydd o'r diwedd yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ers cyhyd; am ddarnau o bolisi a deddfwriaeth sy'n cael eu pasio a fydd yn arwain at newid gwirioneddol a pharhaol; am deuluoedd sy'n cael eu canfod ar gyfer blant a phobl ifanc drwy faethu, mabwysiadu a llety â chymorth.

parhau ar dudalen 06 >>

# Gweddïau cynulleidfaol (parhad)

## Gweddi gynulleidfaol 1 (parhad)

**Duw Gobaith,**
**Emaniwel, Duw gyda ni,**
Duw wnaeth ein dylunio ni, ein creu ni, ac sydd wastad wedi ein nabod ni,
Duw a ddaeth i mewn i'n byd, a symudodd i'n cymdogaeth,
Duw sy'n addo ei bresenoldeb Ef gyda ni, bob amser, hyd ddiwedd amser hyd yn oed.
Rydym yn diolch i ti ac yn dy foli di y Nadolig hwn. Rydym yn gofyn dy fod yn dangos i ni o'r newydd y tymor hwn beth yw gobaith mewn gwirionedd. A gofynnwn i Ti ein grymuso a'n hysbrydoli ni i gludo dy obaith di i mewn i'n teuluoedd, ein cymunedau a'n byd.
**Amen.**

## Gweddi gynulleidfaol 2

**Duw Elisabeth,**
A ddathlodd a bendithio ei pherthynas Mair ar ôl clywed ei newyddion da.
Diolch i ti am bŵer perthnasau, a'r gwahaniaeth gall ein geiriau, ein gweddïau a'n gweithredoedd eu gwneud.
Helpa ni fod yn bobl sy'n dathlu a bendithio eraill.
Arglwydd, gwna ni yn rhai sy'n annog. Dyro i ni lygaid i weld yr aur yn y rhai o'n cwmpas, yn enwedig yn y rhai sy'n aml yn cael eu diystyru.
Defnyddia ein geiriau a'n gweithredoedd i godi ysbryd y rheiny sy'n teimlo'n isel, i atgoffa eraill o'u gwerth, i siarad gwirionedd pan nad ydyn nhw'n ei glywed, ac i adael iddynt wybod eu bod wedi'u caru.
Llenwa ni â dy gariad Di, fel na allwn ni ddim helpu'n hunain ond llawenhau wrth weld yr hyn rwyt ti'n ei wneud drwy eraill yn ei bywyd ni, ein cymunedau a'n byd.

**Duw y bugeiliaid.**
Y rhai cyntaf i groesawu ac addoli'r Brenin newydd-anedig.
Diolch i ti am dy Eglwys.
Boed i ni, yr Eglwys, fod yn bobl sy'n rhoi croeso a lletygarwch.
Boed i ni fod yn agored i'r rheiny ar ymylon ein cynulleidfa, a'u gwahodd i mewn.
Wnei di helpu ni sylwi ar y rheiny sydd â sedd wag wrth eu hymyl, ac i ni fod yn rhai sy'n ei lenwi.
Tynna ein sylw ni at y rheiny sydd yn absennol o deulu ein Heglwys. Helpa ni greu awyrgylch lle gallent deimlo'n ddiogel, wedi'u gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn. Boed i ni fod yn hyblyg fel bod eraill yn gallu ffitio mewn.
Boed i'r croeso rydym yn estyn at eraill fod yn glod i ti.

parhau ar dudalen 07 >>

# Gweddïau cynulleidfaol (parhad)

## Gweddi gynulleidfaol 2 (parhad)

**Duw y seryddion,**
Yr unigolion doeth hynny a fu'n astudio, ac a fu'n ymgysylltu â llywodraethwyr, arweinwyr a brenhinoedd.
Diolchwn i ti am y rhai sy'n ein harwain - yn lleol, yn fyd-eang, yn academaidd, yn wleidyddol, yn ysbrydol, mewn cymuned. Gweddïwn dros y rhai sy'n llunio polisi ac yn gwneud penderfyniadau, a dros y genhedlaeth nesaf o arweinwyr, y rhai rwyt ti eisoes yn eu codi.
Boed i'r rhai ohonom sydd â dylanwad ei ddefnyddio i helpu eraill sylwi ar y rhai dan anfantais ac ar yr ymylon.
Boed i'r rhai ohonom sydd â sgiliau i wrando, dysgu ac ymchwilio, ddefnyddio'r sgiliau hynny i chwilio am atebion.
Boed i'r rhai ohonom sydd â llwyfan gamu o'r neilltu, er mwyn gwneud lle i glywed ac amlygu lleisiau'r rhai nad ydynt yn cael eu clywed ddigon.
Boed i ni fod wedi'n llenwi a'n hysbrydoli gan obaith. Boed i ni fod yn angerddol ac yn ymrwymedig dros gyfiawnder.

**Duw Mair a Joseff,**
A fagodd ac a garodd dy fab, Iesu.
Diolchwn i Ti a gweddïwn dros y rhai sy'n agor eu calonnau a'u cartrefi i blant a phobl ifanc drwy faethu, mabwysiadu, gofalu am berthynas neu drwy lety â chymorth.
Gofynnwn am ragor o unigolion, cyplau a theuluoedd a fydd yn darparu lle sefydlog, lle gall plant a phobl ifanc gael eu cefnogi i ffynnu. Dangos i ni, Arglwydd, os ydy hyn yn rhywbeth y gallwn ni ei wneud.
Ac os na allwn ni, helpa ni i fod yn gymorth i'r teuluoedd sy'n gwneud hynny, drwy annog, gweddïo a chefnogaeth ymarferol.
Boed i ni, dy Eglwys, fod yn bobl sydd â baich dwfn dros blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ein cymuned.
**Amen.**



# Gweddïau cynulleidfaol (parhad)

### Gweddi pob oed

Dduw Dad, diolch i Ti am OBAITH.
Diolch i Ti am gadw dy addewidion i ni bob amser.
Diolch am fod gyda ni bob amser.
Diolch am fod yn ffrind i ni bob amser.
Diolchwn i ti y Nadolig hwn am Iesu - ein haddewid o obaith,
A gofynnwn i Ti helpu ni i rannu'r gobaith sydd gennym ni ag eraill o'n cwmpas;
Ein ffrindiau, ein teulu, ein cymdogion, ein cymuned.
**Amen.**

Mae un o'n gwirfoddolwyr gwych wedi rhannu'r weddi BSL hon â ni. Gwyliwch yma, a'i defnyddio wrth weddïo!

# Gweithgareddau i blant, pobl ifanc neu deuluoedd

**Mae modd addasu'r gweithgareddau canlynol i'w defnyddio gyda grwpiau plant eich eglwys, grwpiau ieuenctid, yn rhan o wasanaeth pob oed neu hyd yn oed gyda theuluoedd adref.**



GWEITHGAREDDAU I BLANT, POBL IFANC NEU DEULUOEDD

# Gobeithion Nadolig

**Rydym yn aml yn siarad am yr hyn rydym yn 'gobeithio' amdano amser y Nadolig – mewn rhyw ffordd croesi bysedd, 'gobeithio ga i'. Sud beth fyddai hi i ni feddwl yn wahanol am 'obaith' eleni?**

**Gofynnwch i blant neu bobl ifanc eich grŵp beth maen nhw'n 'gobeithio' amdano y Nadolig hwn.** Rydyn ni'n tybio y bydd eu meddyliau'n mynd yn syth at yr anrhegion maen nhw'n gobeithio eu cael, ond anogwch nhw i feddwl y tu hwnt i'r anrhegion, tu hwnt i'r math o fwyd y byddant yn ei fwyta, y partïon y bydden nhw efallai yn mynd iddyn nhw, a'r bobl y byddant yn treulio amser gyda nhw. Byddwch yn sensitif i bwy sydd yn yr ystafell, ac arweiniwch y rhan hwn yn ymwybodol na fydd pob plentyn o reidrwydd yn cael llawer o anrhegion eleni, neu efallai na fyddant yn gallu treulio amser gyda rhai pobl benodol, a bod hynny'n chwith iddyn nhw. Efallai y bydd hi'n teimlo'n fwy priodol gofyn i bobl wneud rhestr yn eu pen, neu eu hysgrifennu ar ddarn o bapur yn hytrach na galw allan.

### GOFYNNWCH I'R GRŴP:

*Beth ydych chi'n feddwl fod y gair 'gobaith' yn ei olygu?*

Gwrandewch ar eu hatebion - efallai y byddwch am eu sgwennu lawr ar bapur mawr er mwyn cadw cofnod o'r cyfan.



**Esboniwch iddyn nhw, er ein bod yn aml yn meddwl am 'gobaith' fel dymuniad, neu'n deimlad rydym yn ei gael pan fyddwn am i rywbeth ddigwydd, mae'r Beibl yn ein dysgu ei fod yn rhywbeth gwahanol iawn.** Yn y Beibl mae 'gobaith' yn debycach i hyder. Gobaith yw credu, dim ots beth sy'n digwydd yn ein bywydau, fod yr hyn mae Duw yn ei ddweud yn wir, a'i fod Ef yn cadw Ei addewidion.

**Esboniwch nad yw gobaith fel hyn yn golygu y bydd ein bywydau yn hawdd bob amser; nid dyna y mae Duw yn ei addo.** Ond yr hyn mae yn ei addo yw y bydd Ef gyda ni bob amser. Bydd Ef byth yn ein gadael ni. Bydd Ef yn ffrind i ni bob amser.

GWEITHGAREDDAU I BLANT, POBL IFANC NEU DEULUOEDD

# Gobeithion Nadolig (parhad)

**GOFYNNWCH I'CH GRŴP:**

*Allwch chi feddwl am rywun yn eich bywyd sydd angen ffrind?*

Efallai fod plentyn yn eu dosbarth sydd ychydig yn swil ac sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan. Efallai fod ganddynt Nain neu Daid/Mam-gu Tad-cu sy'n byw ar ben ei hunain. Efallai bod aelod newydd yn eich Eglwys nad ydyn nhw wedi cyfarfod â phobl eto.

**Dywedwch wrth eich grŵp:** Mae rhai plant yn ein tref/dinas/gwlad nad ydyn nhw'n cael byw gyda'u teuluoedd biolegol - efallai eich bod yn nabod plentyn fel hyn yn eich eglwys neu eich ysgol. Rydyn ni'n gwybod fod angen yr un pethau ar y plant yma ag sydd ei angen ar blant eraill - mae angen cartref arnynt lle gallent deimlo'n ddiogel, mae angen oedolyn arnynt fydd yn gofalu amdanynt ac yn dangos cariad tuag atynt, mae angen ffrindiau dibynadwy arnynt. Mae rhai plant yn aros yn hir iawn am y pethau hyn.

**GOFYNNWCH I'CH GRŴP:**

*Os ein gobaith ni yw gwybod fod Duw gyda ni bob amser, sut byddai'n edrych i ni rannu'r gobaith hwnnw ag eraill?*

*Sut allwn ni adael i Dduw ein defnyddio ni i ddangos ei gariad a'i gyfeillgarwch i bobl eraill?*



**Arweiniwch eich grŵp wrth ysgrifennu rhestr Nadolig newydd.**

Yn hytrach na rhestru'r holl bethau rydym yn gobeithio eu cael eleni, gwnewch restr o'r holl syniadau gwahanol y gallwn feddwl amdanynt i ddangos cariad a chyfeillgarwch Duw i bobl rydym yn eu nabod!





GWEITHGAREDDAU I BLANT, POBL IFANC NEU DEULUOEDD

# Crefft llygedyn o obaith

**Crëwch addurniadau disglair gyda'ch gilydd i'n hatgoffa am y gobaith sydd gennym yn Nuw.**

Cyn i chi gyfarfod â'ch grŵp, casglwch y deunyddiau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y gwaith crefft. Gallwch ddefnyddio beth bynnag sydd ar gael i chi – byddem yn awgrymu ychydig o gerdyn neu gardfwrdd, glitter, rhywbeth sy'n ddisglair neu'n adlewyrchu fel ffoil, ac ychydig o greonau neu bennau ffelt i ysgrifennu neu dynnu llun, ond byddwch mor greadigol ag y dymunwch! Bydd angen siswrn arnoch hefyd, ychydig o dâp neu lud, ac ychydig o gortyn i hongian eich addurniadau.

Os ydy eich grŵp yn iau, efallai y byddwch yn dymuno paratoi rhywfaint o'r crefft ymlaen llaw. Gallech dorri'r cerdyn neu gardfwrdd i siâp cylch neu seren, a gallech roi'r cortyn yn ei le yn barod.

Dywedwch wrth eich grŵp fod y Nadolig yn amser gwych i ni gofio addewidion arbennig Duw i ni, wrth i ni ddathlu bod ei addewid mawr Ef wedi dod yn wir pan gafodd Iesu ei eni. Anogwch y grŵp i feddwl am rai o'r addewidion arbennig eraill mae Duw wedi ei wneud - efallai y bydd angen i chi eu helpu nhw, ond gellir cadw pethau ar lefel oedran y plant. Mae Duw wedi addo i fod gyda ni bob amser. Mae Duw wedi addo ein caru ni bob amser. Mae Duw wedi addo bod yn ffrind i ni bob amser.

Dywedwch wrth eich grŵp eich bod am greu addurniadau Nadolig arbennig a fydd yn ein hatgoffa ni o addewidion arbennig Duw. Efallai y byddant am gadw'r addurniadau iddyn nhw eu hunain, neu efallai eu rhoi yn anrheg o anogaeth i rywun.

Anogwch nhw i ysgrifennu neu dynnu llun rhywbeth ar yr addurn fydd yn eu hatgoffa o un o addewidion Duw, ac yna ei addurno gyda lliwiau, darnau disglair a hwyl.

Gallwch rannu llun o'ch creadigaeth â ni! Tagiwch ni ar Instagram (@homeforgood.org.uk) neu anfon e-bost at info@homeforgood.org.uk.

home for good

GWEITHGAREDDAU I BLANT, POBL IFANC NEU DEULUOEDD

# Stori'r geni drwy fara sinsir

**Er mwyn gwneud toes bara sinsir, mae angen llawer o gynhwysion gwahanol. Os bydd un cynhwysyn ar goll, tydi pethau ddim yn gweithio'r un fath!**

Gwnewch gymeriadau stori'r geni gyda'ch gilydd. Gallwch addasu pa mor anodd yw'r broses gan ddibynnu ar oed y grŵp rydych chi'n gweithio â nhw, a faint o amser sydd ar gael - gallwch bobi'r bara sinsir eich hun, neu brynu pobl bara sinsir ac ychydig o siwgr eisin lliwgar. Gan ddibynnu ar ba mor fedrus ydych chi yn adeiladu gyda bara sinsir, gallech greu'r stori'r geni cyfan, gyda phreseb, anifeiliaid a'r cwbl! Chwiliwch am rysáit eich hun - yn ein barn ni, mae rhywbeth at eich dant **ar BBC Good Food** bob tro!

Trafodwch yn eich grŵp pa gynhwysion sydd eu hangen i wneud bara sinsir, efallai wrth i chi eu hychwanegu at eich cymysgedd, os ydych yn gwneud rhai eich hun. Mae cymaint o wahanol elfennau - blawd, siwgr, menyn, sbeisys, a phob cynhwysyn ychydig yn wahanol, ac yn gwneud gwaith gwahanol. Mae pob cynhwysyn yn bwysig. Heb y powdr codi, byddai'r bara sinsir yn fflat. Heb y siwgr, fyddai o ddim yn blasu'n iawn. Heb y sbeisys a thriog, byddai'n fisged gyffredin.

Trafodwch stori'r Nadolig, a'r ffaith bod llawer o bobl a llawer o rannau ynddo. Myfyriwch ar sut roedd pob rhan yn bwysig wrth baratoi i groesawu Iesu i'r byd.

Trafodwch sut rydym ni, yr Eglwys, ychydig yn debyg i greadigaeth bara sinsir gwych. Mae pob un ohonom ychydig yn wahanol; yn hoffi gwahanol bethau, yn dda am wneud pethau gwahanol, yn edrych a swnio'n wahanol, ac mae gennym ni ein teimladau, syniadau a storïau gwahanol. Dathlwch fod Duw yn gallu defnyddio pob un ohonom yn unigol, ac, yn bwysig, gyda'n gilydd, i ddangos ei gariad Ef.

Gorffennwch addurno'ch stori geni bara sinsir, ac yna ei fwyta - ond nid cyn i chi dynnu llun o'ch creadigaeth, a rhannu'r llun gyda ni! Tagiwch ni ar Instagram (**@homeforgood.org.uk**) neu anfon ebost at **info@homeforgood.org.uk**.



home for good

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth

**Gwyddom fod pob eglwys yn wahanol, a phob arweinydd eglwys hefyd. Bydd gennych chi eich arddull a blaenoriaethau eich hun pan mae'n dod i siarad; byddwch yn gwybod be fydd yn taro tant gyda'ch teulu eglwys, a sut y gall pethau gael eu dehongli. Bydd gennych syniad o bwy fydd yn y gynulleidfa - yn blant, oedolion, wynebau newydd, wynebau cyfarwydd, ac efallai pob un o'r uchod. Felly, dydyn ni ddim am roi sgwrs wedi'i baratoi i chi i'w ddilyn. Yn hytrach, gobeithiwn fod y pwyntiau rydym yn eu rhannu isod yn help i sbarduno rhan o'ch gwasanaeth Nadolig eleni. Mae croeso i chi ddewis elfennau rydych yn teimlo bydd yn eich helpu, a'u haddasu i weddu'r gwasanaeth a'ch cymuned - efallai bydd rhai sy'n hoff o esbonio'r ysgrythur yn dymuno canolbwyntio dim ond ar un o'r adnodau neu ran o'r ysgrythur.**

## Agoriad: Beth ydych chi'n 'gobeithio' amdano y Nadolig hwn?

Gofynnwch i'ch teulu eglwys feddwl am yr hyn maen nhw'n 'gobeithio' amdano y Nadolig hwn. Bydd meddyliau yn mynd yn syth at yr anrhegion maent yn gobeithio eu cael, ond anogwch nhw hefyd i feddwl y tu hwnt i'r anrhegion, y bwyd maen nhw'n gobeithio ei fwyta, y partïon y byddan nhw efallai yn mynd iddyn nhw, neu'r bobl y byddan nhw efallai'n treulio amser gyda nhw. Byddwch yn sensitif i bwy sydd yn yr ystafell, yn enwedig os ydych yn siarad â phlant a phobl ifanc, ac arweiniwch yr elfen hon yn ymwybodol na fydd pawb o reidrwydd yn cael llawer o anrhegion eleni, neu efallai bydd rhai pobl na fyddant yn gallu treulio amser gyda'r rhai maen nhw'n eu colli. Efallai y bydd yn teimlo'n fwy priodol gofyn i bobl wneud rhestr yn eu pen, yn hytrach na galw allan.

Dyma gyfle da i rannu stori bersonol eich hun. Ydych chi'n cofio cael anrheg roeddech chi'n awyddus iawn i'w gael - neu efallai'n cofio tro pan na wnaethoch gael yr anrheg honno? Wnaethoch chi gael anrheg od neu ddiddorol iawn adeg y Nadolig? Allwch chi gofio amser pan oeddech chi'n obeithiol iawn y byddai rhywbeth yn digwydd?




parhau ar dudalen 14 >>

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth (parhad)

## Myfyriwch: Beth mae 'gobaith' wir yn ei feddwl?

Yn aml, pan fyddwn yn siarad am obaith, rydym yn siarad amdano fel petai'n syniad neu'n ddymuniad; 'os rwy'n croesi  fy mysedd efallai y bydd hyn yn digwydd. Os byddaf yn meddwl am y peth yn ddwys ac yn ddigon aml, efallai y daw'r freuddwyd yn wir'. Mae gobaith yn y Beibl yn wahanol. Mae gobaith yn y Beibl yn ddisgwyliad hyderus, yn sicrwydd, nid wedi'i seilio ar gryfder teimlad unigolyn, ond yn gyfan gwbl ar bwy yw Duw. Yn un rhan o Hebreaid 6 dan y pennawd 'Mae beth mae Duw wedi'i addo yn sicr' daw'r adnod anhygoel hwn 'Mae'r gobaith hwn yn obaith sicr - mae fel angor i'n bywydau ni, yn gwbl ddiogel' ( Hebreaid 6:19 - BNET) Mae ysgrifennwr Hebreaid yn ein hannog  'Felly gadewch i ni ddal gafael yn y gobaith dyn ni'n ddweud sydd gynnon ni. Mae Duw yn siŵr o wneud beth mae wedi'i addo!' (Hebreaid 10:23).

Nid yw'n gobaith yn Nuw yn dibynnu arnom ni, ein gallu, cryfder ein teimladau neu pa mor benderfynol ydym ni. Ef yw'n gobaith, ac mae ein gobaith ynddo Ef.

Onid yw hynny'n hyfryd – gallwn ni gyd obeithio ynddo Ef a byw bywyd yn llawn rhyfeddod, yn rhydd o heriau o'i herwydd. Dim o ddifrif! Nid dyna beth yw gobaith 'chwaith.

Nid yw addewid Duw yn dweud y bydd ei ddilyn Ef yn golygu y byddwn yn cael bywyd heb ddioddefaint na chyfri'r gost, nac ychwaith y byddwn fyth yn profi heriau a thor calon. Yr hyn sy'n cael ei addo yw ei bresenoldeb Ef. Y bydd Ef gyda ni bob amser. Gallwn fod yn hyderus na fydd Ef FYTH yn ein gadael ni nac yn cefnu arnom. Ei addewid yw y byddwn ni, rhyw ddydd, gydag Ef hyd dragwyddoldeb ac na fydd rhagor o ddagrau, galaru, marwolaeth na dim o'r pethau sy'n cael ei ddwyn oddi wrthym yma.

Yr ochr yma i dragwyddoldeb, rydym yn byw mewn tensiwn, rhwng y 'nawr' ond 'dim eto'. Mae ein gobaith ynddo Ef - yn bresennol, wrth ein hochr, yn gwrando'n gweddi, yn symud yn bwerus ynom ni a thrwom ni, ond weithiau ynghanol heriau, tor calon a phoen. Mae ein gobaith eto i ddod.

*(Os ydych yn annerch cynulleidfa pob oed, efallai y byddwch yn dewis symleiddio rhywfaint o hyn. Darllenwch y gweithgaredd 'Gobeithion y Nadolig' ar gyfer plant a phobl ifanc ar tudalennau 09 a 10).*

## Archwilio: Lle mae'r gobaith yn stori'r Nadolig?

Cannoedd o flynyddoedd cyn i Iesu gael ei eni, soniodd proffwydi Duw am obaith a fyddai'n dod i'r byd drwy ddyfodiad y Meseia - rydym yn aml yn clywed am un o'r proffwydi hyn adeg y Nadolig, Eseia.

*Mae'r bobl oedd yn byw yn y tywyllwch wedi gweld golau llachar. Mae golau wedi gwawrio ar y rhai oedd yn byw dan gysgod marwolaeth... Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch. Fydd ei lywodraeth ddim yn stopio tyfu.*

parhau ar dudalen 15 >>

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth (parhad)

## Archwilio: Lle mae'r gobaith yn stori'r Nadolig? (parhad)

Mae'r rhain yn eiriau gwych, cyffrous, llawn anogaeth - ond weithiau pan fyddwn yn eu darllen adeg y Nadolig, rydym yn anwybyddu'r cyd-destun pan y'u dywedwyd. Mae'r geiriau sy'n rhagflaenu pennod naw yn ymwneud â thywyllwch, dioddef a barnedigaeth. Maent yn annerch cymuned a oedd yn ofnus, yn teimlo'n ddi-rym, oedd yn wynebu gelynion gwirioneddol, a oedd yn meddwl lle'r oedd Duw. Ac yna mae pennod naw yn dechrau â'r gair hynod bwysig: 'Ond'. Mae'r 'ond' yma yn cario gras Duw, Ei gariad a thosturi mawr dros ei bobl, Ei faddeuant hael a'i ffyddlondeb rhyfeddol. Ac yna, yn y darn adnabyddus hwn, darllenwn nad tywyllwch yw'r diwedd. Mae gan Dduw rhywbeth gwahanol ar gyfer ei bobl Ef.

Ond nid yw'r addewidion hyn yn cael eu cyflawni'n syth. Mae tudalen ar ôl tudalen, pennod ar ôl pennod rhwng y geiriau hynny a'r rheiny sy'n siarad am eni Iesu, sy'n cynrychioli blynyddoedd o aros. Ac mae hynny'n ddarlun o 'obaith' onid yw? Nid yw ein gobaith ni yn seiliedig ar bopeth yn cael ei wneud yn iawn yn syth bin. Ynddo Ef mae'n gobaith – mae Ef yn bresennol, wrth ein hochr, yn gwrando'n gweddi, yn symud yn bwerus ynom ni a thrwom ni; ond weithiau ynghanol heriau, tor calon a phoen. Mae ein gobaith ni hefyd i ddod.

Yna, un diwrnod, mae angel yn ymddangos i ferch gyffredin o'r enw Mair. Mae'n dweud geiriau wrthi sy'n adlais o addewid y proffwydi, ac yn deud y bydd hi'n geni plentyn.

*Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd, a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!*

Roedd y Meseia y bu'r bobl yn dyheu ac yn aros yn hir amdano yn dod - mewn ffordd fyddai'n gwyrdroi disgwyliadau, yn codi cwestiynau ac yn creu dryswch. Roedd y Meseia y gobeithiwyd amdano yn dod fel babi, bregus, yn hollol ddibynnol ar ei fam.

Tybed sut roedd Mair yn teimlo'r funud honno? Rydym yn gwybod fod cwestiynau am y logisteg; rwy'n dychmygu bod llawer mwy o gwestiynau nag sydd wedi'u cofnodi yn Luc. Serch hynny, er mor annisgwyl yw'r ffordd y mae'r addewid a gobaith yn cael ei gyflawni, mae Mair yn ymateb drwy foli Duw yn y Magnificat prydferth a phwerus; darlun o'r hyn ydyw i fod â gobaith yn Nuw, beth bynnag ein hamgylchiadau.

*O, dw i'n moli'r Arglwydd! Mae Duw, fy Achubwr, wedi fy ngwneud i mor hapus! Roedd yn gwybod bod ei forwyn yn ferch gyffredin iawn… Mae bob amser yn trugarhau wrth y rhai sy'n ymostwng iddo… Mae wedi helpu ei was Israel, a dangos trugaredd at ei bobl. Dyma addawodd ei wneud i'n cyndeidiau ni - dangos trugaredd at Abraham a'i ddisgynyddion am byth.*

Misoedd wedyn, ganwyd Iesu; eto, roedd yr amgylchiadau yn bell o'r hyn y byddech yn ei ddychmygu ar gyfer Meseia. Cafodd gobaith y byd ei eni mewn cornel dawel rhyw dref di nod, i ddau berson cyffredin iawn. Ymwelwyr cyntaf Iesu oedd bugeiliaid, wedyn y gwŷr doeth wedi'u harwain gan seren. Wrth dyfu fyny byddai'n parhau i herio disgwyliadau; mae Duw-yn-gnawd, nawr fel bryd hynny, yn gwbl gwrth-ddiwylliannol. Roedd Iesu yn trin dynion a merched yn

parhau ar dudalen 16 >>

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth (parhad)

## Archwilio: Lle mae'r gobaith yn stori'r Nadolig? (parhad)

gydradd mewn cymdeithas lle'r oedd merched yn cael eu hystyried yn llai pwysig na dynion. Roedd yn croesawu plant mewn modd radical a chariadus. Roedd yn cyd-fwyta â phobl roedd gweddill y gymdeithas yn edrych lawr arnyn nhw ac yn trin y rheiny oedd yn cael eu hystyried yn 'aflan' yn llawn tosturi, a hyd yn oed yn mynd yn agos atynt. Roedd yn herio hiliaeth a senoffobia ei gyfnod drwy addysgu a defnyddio damhegion. Doedd ganddo ddim amser ar gyfer perfformio crefydd wag sy'n anwybyddu'r hyn sydd fwyaf pwysig - trugaredd, ufudd-dod a chyfiawnder. Dysgodd ei ddilynwyr am Deyrnas Nefoedd, gan eu cyfeirio, a ninnau, at amser pan fydd popeth yn cael ei wneud yn newydd ac yn iawn. Iesu, Emaniwel, Duw gyda ni, oedd yn obaith bryd hynny, ac sy'n obaith yn awr, ac mae hefyd wedi dod â rhannu rhagor o obaith.

Bu farw Iesu ar y groes, gan ddelio â phechod unwaith ac am byth a chreu ffordd i ni ddod yn agos at Dduw. Rydym yn gweld uchafbwynt addewid Duw ag Israel, rydym yn gweld prawf o'i gariad a'i gyfiawnder Ef. Atgyfododd Iesu yn fuddugoliaethus, gan drechu pechod a marwolaeth yn llwyr. Ac yn ei ddyddiau olaf cyn esgyn i'r Nefoedd, lle un diwrnod byddwn gydag ef, mae'n rhoi ei ysbryd glan ac yn dweud geiriau sy'n atgyfnerthu addewid Duw o'i bresenoldeb Ef gyda ni - bob amser, hyd at ddiwedd amser. Yn Colosiaid mae Paul yn ysgrifennu bod 'Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant' (BCND). Mae'r addewid am obaith wedi'i gyflawni - ac yn ei le mae rhagor o obaith.

## Gweithredu: Beth i'w wneud gyda'r hyn rydym yn ei ddysgu?

Un o fy hoff emynau yw Fendigaid Nos. Mae cymaint o linellau rwy'n ei garu ynddo, gan eu bod yn darlunio natur Duw. Ond mae un llinell, yn y pennill cyntaf, sydd bob amser yn cyseinio a'r hyn rydym wedi bod yn ei drafod.

*Mewn gobaith llon mae'r cread yn atseinio.*

Mae stori'r Nadolig yn un o obaith. Daeth Duw i'n byd blinedig i fod fel ni. Daeth Iesu â goleuni i'r tywyllwch. Daeth Iesu â llawenydd a newyddion da i bobl. Trwyddo Ef daethom i wybod ein bod yn blant i Dduw; mai'r Nefoedd yw ein cartref. Mewn byd blinedig, ganwyd addewid o obaith y noson honno.

Ond, fel y gwyddom, nid addewid y bydd popeth yn iawn drwy'r amser ydyw. Ac mae'r byd yn parhau i deimlo'r flinedig heddiw. *(Arweinwyr eglwys, ar y pwynt hwn efallai y byddwch am dynnu sylw at rai o'r pethau sy'n arbennig o berthnasol i'ch cymuned chi - tlodi, newid hinsawdd, unigrwydd, ofn...)*

Eleni, bydd tua 36,000 o blant yn cael eu rhoi mewn gofal. Bydd y rhesymau nad ydynt yn gallu aros gyda'u teuluoedd biolegol yn amrywiol a helaeth; mae stori pob plentyn yn unigryw. Ond mae pob un ohonynt angen, ac yn haeddu cael croeso, sefydlogrwydd a theimlo'n ddiogel.

parhau ar dudalen 17 >>

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth (parhad)

## Gweithredu: Beth i'w wneud gyda'r hyn rydym yn ei ddysgu? (parhad)

**Mae ein system gofal wedi'i hymestyn hyd at dorri. Mae angen miloedd yn rhagor o ofalwyr maeth ar hyd y wlad er mwyn sicrhau fod gan bob plentyn do uwch ei ben. Mae plant yn gorfod aros yn rhy hir am gartref fydd yn bodloni eu gofynion ac yn cynnig y gofal a chefnogaeth sydd ei angen arnynt.**

Ar hyn o bryd mae prinder dybryd o ofalwyr maeth yn y DU. Mae hynny'n golygu fod plant yn gorfod symud nifer o weithiau mewn amser byr; sy'n achosi ansefydlogrwydd ac ansicrwydd. Mae rhai plant a phobl ifanc yn gorfod symud milltiroedd i ffwrdd o bopeth sy'n gyfarwydd iddyn nhw - oherwydd mai dyna ble mae'r cartref maeth agosaf ar gael. Mae brodyr a chwiorydd yn gorfod cael eu gwahanu, byw ar wahân, oherwydd nad oes digon o ofalwyr sy'n gallu gofalu amdanynt gyda'i gilydd.

Y funud hon, mae plant y bernir eu bod yn addas ar gyfer cael eu mabwysiadu yn colli'r cyfle o weld hynny'n digwydd, am eu bod yn aros yn rhy hir i'r teulu iawn gael ei ganfod ar eu cyfer. Mae plant du, plant sydd ag anabledd, plant dros bedair oed neu blant sydd â brodyr a chwiorydd ymysg y rheiny sy'n aros deunaw mis neu fwy am deulu.

Ar hyn o bryd, mae un o bob pedwar person yn ei arddegau sydd mewn gofal yn y DU dros 16 oed. Oeddech chi'n gwybod hynny? Mae 25% o blant mewn gofal yn eu harddegau, dros 16 oed. *(Arweinwyr eglwys, nodwch mai ystadegau ar gyfer y DU ar ei hyd yw'r rhain. Efallai y byddwch yn dymuno canfod gwybodaeth sy'n fwy perthnasol i'ch ardal chi, neu Gymru. Os felly, gallwch fynd i'n* **tudalen ystadegau** *ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.)* Er hynny, prin yw'n dewis ar gyfer y bobl ifanc gwerthfawr hyn. Yr hyn sydd ei angen arnynt yw cefnogaeth ac anogaeth, er hynny yn rhy aml maent yn cael eu gosod mewn llety sy'n cwbl anaddas ar eu cyfer - fflatiau un stafell, gwely a brecwast, carafanau, hyd yn oed mewn pebyll. Sud olwg sydd ar 'obaith' iddyn nhw?

Gobaith yw Ef - yn bresennol, wrth ein hochr, yn gwrando'n gweddi, yn symud yn bwerus ynom ni a thrwom ni; ond weithiau ynghanol heriau, tor calon a phoen. Mae ein gobaith ni hefyd i ddod wrth i ni edrych ymlaen at y dydd lle na fydd rhagor o ddagrau, galaru, marwolaeth na dim o'r pethau sy'n cael ei ddwyn oddi wrthym yma.

Ond fel rhai sy'n dilyn Iesu, rydym hefyd yn rhai sy'n cludo'r gobaith. Mae gennym ni'r grym a'r cyfrifoldeb i ddod â gobaith i sefyllfaoedd anobeithiol. Mae dros 50,000 eglwys yn y DU. Ym mhob pentref, tref a dinas mae'r eglwysi hyn - yn fawr, fach neu ganolig eu maint - wedi'u llenwi â phobl sy'n dymuno dilyn esiampl Iesu, yn ceisio cyfiawnder, dangos tosturi a dangos lletygarwch, gan ddod â gobaith. Dychmygwch y gwahaniaeth y gallwn ni, Eglwys Dduw, ei bobl Ef, ei wneud.

parhau ar dudalen 18 >>

# Syniadau ar gyfer sgyrsiau neu bregeth (parhad)

## Gweithredu: Beth i'w wneud gyda'r hyn rydym yn ei ddysgu? (parhad)

Mae llawer o adegau lle bydd 'gobaith' yn edrych a theimlo'n enfawr a gwyrthiol i'r plant a phobl ifanc hyn; bydd yn edrych fel teuluoedd sefydlog yn cael eu canfod ar gyfer plant a phobl ifanc drwy faethu, mabwysiadu a llety â chymorth. Efallai y bydd yn edrych fel teulu yn derbyn y gefnogaeth oedd ei angen arnynt ers amser hir. Gall edrych fel darnau o bolisi a deddfwriaeth yn cael eu pasio a fydd yn arwain at newid gwirioneddol a pharhaol yn ein system gofal, a'r gymdeithas.

Ond efallai bydd adegau hefyd lle bydd gobaith yn edrych yn wahanol. Efallai bydd gobaith yn edrych yn llai nag oedden ni'n dychmygu y byddai. Efallai y bydd yn edrych yn fwy 'cyffredin' nag oedden ni'n dychmygu y byddai. Efallai y bydd 'gobaith' i'r plant a'r teuluoedd hyn yn edrych mwy fel babi mewn preseb na brenin mawreddog; pryd o fwyd wedi'i rannu, sgwrs a gafwyd, rhywun yn cynnig lifft, neu air caredig a ddywedwyd.

*(Byddai hwn yn gyfle gwych i ddangos y fideo sydd wedi'i gynnwys yn ein pecyn adnoddau!)*

**Ein gwahoddiad i chi y Nadolig hwn yw ystyried: sut gallwch chi rannu addewid Duw o obaith yn y gymuned hon?**

# Rhoi i Home for Good

**Dim ond drwy gefnogaeth pobl wych fel chi y gallwn ddal ati i ysbrydoli eglwysi a darparu ar eu cyfer.** Byddem wrth ein bodd eich gwahodd chi i 'dalu ymlaen' fel bod rhagor o eglwysi yn gallu derbyn ein hadnoddau am ddim, a helpu canfod rhagor o gartrefi diogel, sefydlog a chariadus ar gyfer y plant sydd eu hangen. Mae eglwysi ar hyd y wlad yn cefnogi Home for Good unai drwy gynnal casgliad arbennig yn ystod eu gwasanaethau neu drwy wneud cyfraniad ariannol misol neu flynyddol.

**Y Nadolig hwn, ystyriwch: :**

1. Cynnal casgliad arbennig ar gyfer Home for Good
2. Ymrwymo fel eglwys i roi yn fisol neu'n flynyddol

## Mae tair ffordd gallwch gyfrannu:

### 1. DRWY DROSGLWYDDIAD BANC:

Gallwch roi i gyfrif banc Home for Good drwy ddefnyddio'r manylion isod:

| | |
|---|---|
| **Enw'r cyfrif:** | Home for Good |
| **Banc:** | CAF Bank, 25 Kings Hill Ave, Kings Hill, West Malling ME19 4JQ |
| **Cod didoli:** | 40-52-40 |
| **Rhif cyfrif:** | 00029458 |




Er mwyn helpu ein tîm cyllid i adnabod eich rhodd, anfonwch e-bost at fundraising@homeforgood.org.uk hefyd i nodi enw a chyfeiriad eich eglwys, ynghyd â dyddiad a swm eich rhodd.

### 2. GYDA SIEC:

Gallwch anfon siec wedi ei wneud i 'Home for Good' i Home for Good, Romero House, 55 Westminster Bridge Road, London, SE1 7JB. Cofiwch nodi enw a chyfeiriad eich eglwys ynghyd â'ch siec.

### 3. AR-LEIN:

Gallwch roi gyda cherdyn debyd neu gredyd ar-lein ar homeforgood.org.uk/christmas-pay-it-forward. Gwnewch yn siŵr nad ydych chi, oni bai mai eich arian chi ydyw, yn rhoi tic wrth y datganiad Rhodd Cymorth.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut rydym yn defnyddio'ch rhoddion i hyrwyddo'n gwaith, neu am wybod rhagor ynghylch rhoi fel eglwys, cysylltwch â ni ar fundraising@homeforgood.org.uk.

Diolch yn fawr – mae eich haelioni yn gwneud gwahaniaeth trawsffurfiol. Gyda'n gilydd gallwn ganfod cartref i bob plentyn sydd angen un.

# Atodiad 1: Dod at eich gilydd

**Yn Home for Good, rydym yn arbennig o ymwybodol o'r rheiny a allai wynebu rhwystrau i deimlo eu bod yn cael cynnwys, oherwydd bod ganddyn nhw neu rywun yn eu teulu brofiad o fod mewn gofal.**

Bydd profiad pawb yn wahanol, a does dim un ffordd o fynd ati fydd yn gweddu pawb, ond dyma rhai syniadau am sut gallech chi ddangos eich bod â rhywfaint o ddealltwriaeth am brofiadau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd.

- **Sut ydych chi'n dangos croeso?** Mae llawer ohonom wrth ein bodd cael ysgwyd llaw yn frwd a chael cwtsh neu goflaid gynnes, ond mae llawer a ddaw drwy'r drws fydd yn teimlo'n bryderus yng nghwmni pobl newydd ac anghyfarwydd. Efallai gall eich tîm croesawu gynnig rhai opsiynau gwahanol i'r bobl sy'n dod at y drws - ysgwyd llaw, pump uchel, codi llaw neu wenu?
- **Ystyriwch beth sydd i'w weld, ei glywed a'i arogli.** Rydym yn gwybod fod plant sydd wedi profi trawma yn gallu cael anhawster i integreiddio synhwyrau. Gall hyn olygu fod pethau fel goleuadau, cerddoriaeth neu arogleuon fod yn llethol iddynt. Byddai modd i chi gynnig clustffonau i warchod clyw rhywun fyddai eu hangen? Efallai gallech chi greu 'cornel dawel' rhywle, gyda goleuadau pwl, efallai pabell 'pop-up', deunyddiau meddal ac efallai teganau i fysedd aflonydd, a gwneud yn siŵr fod pawb yn y gynulleidfa yn gwybod bod modd iddynt ddefnyddio'r gornel hon os yw popeth yn teimlo'n ormod?
- **Ystyriwch yr iaith byddwch yn ei ddefnyddio wrth siarad â'r plant a phobl ifanc.** Yn hytrach na dweud 'rhieni' neu 'mamau a thadau', efallai gallech ddefnyddio 'eich oedolyn' i gydnabod y rhai nad ydyn nhw'n byw gyda'u teuluoedd biolegol ar hyn o bryd.
- **Gadewch i oedolion aros gyda'u plant os oes gennych raglen plant neu bobl ifanc mewn ystafell wahanol.** Byddwch yn hyblyg gyda'ch grwpiau oedran; bydd rhai brodyr a chwiorydd yn teimlo'n fwy cyfforddus os gallant aros gyda'i gilydd, a bydd eraill yn teimlo eu bod yn gallu cymryd fwy o ran mewn gweithgaredd sydd wedi'i fwriadu ar gyfer plant iau.
- **Efallai y bydd rhai plant yn ymddwyn yn wahanol i rai'r un oed â nhw - ac mae hynny'n iawn.** Mae ymddygiad yn fodd o gyfathrebu. Helpwch deuluoedd i deimlo croeso drwy ddangos iddynt nad ydych yn poeni am blant swnllyd, neu os ydynt yn crwydro o amgylch yr ystafell, neu eu bod yn dangos eu hemosiynau.
- **Meddyliwch yn ofalus am rai o'r storïau i'w dweud adeg y Nadolig.** Ni fydd pob plentyn yn teimlo'n gysurus am y syniad o ddyn dieithr yn dod mewn i'w cartref neu eu hystafell wely ar noswyl y Nadolig, hyd yn oed os yw'n dod ag anrhegion! Efallai y bydd plant sydd wedi cael profiadau anodd yn teimlo cywilydd neu eu bod nhw ar fai, ac efallai y bydd sgyrsiau sy'n ymwneud â bod yn ddigon 'da' neu'n ddigon 'neis' i haeddu anrhegion fod yn anodd iawn iddyn nhw.